# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

**HWLG(3)-04-10-p4: 4 Mawrth 2010**

## Sesiwn Dystiolaeth i Weinidogion

### 1 Diben

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth gefndir i roi'r manylion diweddaraf i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol (y Pwyllgor) am Wasanaethau Cadeiriau Olwyn ac Adolygiad Cymru Gyfan o Ystum a Symudedd.

### 2 Cefndir

Yng Nghymru caiff gwasanaeth ystum a symudedd, sy'n cynnwys darpariaeth hirdymor cadeiriau olwyn, ei gomisiynu gan Gomisiwn Iechyd Cymru oddi wrth y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar. Nododd Cylchlythyr Iechyd Cymru (2003) 63, Canllawiau Cynllunio a Chomisiynu, y byddai Comisiwn Iechyd Cymru yn comisiynu ystod y cytunwyd arni o wasanaethau arbenigol, trydyddol a chenedlaethol ar gyfer Cymru Gyfan o 1 Ebrill 2003 ymlaen. Ar hyn o bryd, caiff cadeiriau olwyn eu dosbarthu drwy bum canolfan ledled Cymru: Canolfannau Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yng Nghaerdydd a Wrecsam, ac Unedau Peirianneg Adsefydlu yn Abertawe, Caerdydd a Llanfairfechan. Mae'r Unedau Peirianneg Adsefydlu, drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth â'r ddwy Ganolfan Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar, yn gyfrifol am ddarparu seddau arbenigol.

Yn 2008/09, rhoddodd Comisiwn Iechyd Cymru £18.6m o gyllid i'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yng Nghymru. Nid yw'r swm hwnnw'n cynnwys y cyllid ar gyfer yr holl Unedau Peirianneg Adsefydlu. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau'n gwybod am 70,955 o bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Mae'r ffigur hwnnw'n cyfateb i oddeutu un defnyddiwr cadair olwyn i bob 43 unigolyn yn y boblogaeth.

Bernir bod mwyafrif yr achosion a atgyfeirir (72% - 80%) yn achosion nad ydynt yn gymhleth, a chânt eu rheoli drwy broses sy'n golygu bod cleient yn cael cadair olwyn cyn pen 21 diwrnod. Fodd bynnag, ceir problemau sylweddol o ran tegwch ac amseroedd aros yng nghyswllt asesu a darparu cadeiriau olwyn cymhleth, a rhaid aros dros 16 mis am asesiad yn y gogledd.

### 3 Camau a gymerwyd

Mae'r papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Adolygiad Cymru Gyfan o Ystum a Symudedd.

Ym mis Mai 2008, cyhoeddais fy ymrwymiad i gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth cadeiriau olwyn yng Nghymru. Y bwriad oedd i'r adolygiad ymdrin â benthyciadau hirdymor a byrdymor, a gwasanaethau cadeiriau olwyn i oedolion a phlant.

### Adolygiad Cymru Gyfan o Ystum a Symudedd

Rhannwyd yr adolygiad yn ddau gam. Nod cam un oedd:-

Archwilio cyfleoedd i leihau amseroedd aros ar gyfer asesu a darparu offer ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau cadeiriau olwyn i blant ac oedolion;

Adolygu'r broses gyfredol mewn Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn ar gyfer rheoli rhestrau aros, er mwyn sicrhau y cânt eu rheoli'n unol â chanllawiau arfer da cyfredol (Canllaw Arfer Da 2007 a chanllawiau Atgyfeirio am Driniaeth);

Gwneud argymhellion ynghylch y ffordd ymlaen a fydd yn arwain at welliant cynaliadwy i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn;

Ystyried a oedd angen cynnal adolygiad ehangach o'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar.

Yn dilyn cwblhau cam un, byddai cam dau yn ceisio:

Datblygu cynllun wedi'i gostio ar gyfer sicrhau gwelliannau graddol yng nghyswllt amseroedd aros. Byddai'r gwaith hwn yn nodi'r effeithlonrwydd cynnar y byddai angen ei sicrhau i wella perfformiad, a chynllun buddsoddi a fyddai'n darparu amser aros hwyaf y cytunwyd arno dros gyfnod o amser y cytunwyd arno.

Adolygu gweddill y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar gan fod defnyddwyr cadeiriau olwyn yn aml yn defnyddio gwasanaethau eraill.

### 4 Cynnydd

### Canfyddiadau Allweddol Cam Un Adolygiad Cymru Gyfan o Ystum a Symudedd

Cafodd Cam Un yr Adolygiad ei roi ar waith gan Grŵp Llywio a Grŵp Cynghori Arbenigol a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o blith defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, gweithwyr o Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr, Comisiwn Iechyd Cymru, Y Groes Goch Brydeinig a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Lluniodd y Grŵp Llywio Adroddiad Gweinidogol ar gasgliad cam un, a oedd yn cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau allweddol, a gwnaeth

nifer o argymhellion.

Dyma grynodeb o ganfyddiadau allweddol cam un Adolygiad Cymru Gyfan o Ystum a Symudedd:

Mae defnyddwyr a gofalwyr yn wynebu risgiau a goblygiadau sylweddol wrth iddynt aros i gael eu hasesu a chael cyfarpar. Yn ogystal, mae costau cysylltiedig yn codi ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth geisio rhoi cymorth i gleientiaid heb y cyfarpar cywir.

Mae diffyg safonau gwasanaeth neu ddangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt yn ffurfiol ar gyfer darparu gwasanaethau cadeiriau olwyn wedi golygu nad yw'r ffocws o ran rheoli perfformiad mor glir yn y gwasanaeth hwn ag y mae yn achos arbenigeddau eraill lle mae amseroedd aros yn ffactor allweddol sy'n sbarduno gwasanaethau.

Yn absenoldeb gofyniad gorfodol ffurfiol i fonitro amser aros ar gyfer asesu a darparu cadeiriau olwyn, mae Comisiwn Iechyd Cymru wedi datblygu amseroedd aros hwyaf dros dro ar gyfer y gwasanaethau yn y gogledd a'r de.

Ar hyn o bryd ceir rhwystrau amrywiol (a sylweddol weithiau) ym mhroses y gadwyn gyflenwi, sy'n arwain at oedi rhwng cymryd presgripsiwn am gadair olwyn a dosbarthu'r gadair i'r cleient.

Mae cyllidebau'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar a'r Unedau Peirianneg Adsefydlu yn rhwym wrth dargedau lleihau costau mewnol, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Caiff llawer o'r cyfarpar ar gyfer y gwasanaeth ystum a symudedd ei brynu o'r farchnad fyd-eang. Oherwydd effaith y gyfradd gyfnewid gyfredol, mae'r cynnydd cymharol yng nghost cyfarpar yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar y gwasanaeth.

blith gwledydd y DU, Cymru sy'n darparu'r ystod fwyaf o gyfarpar i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r strategaeth honno'n un fwriadol fel bod modd i anghenion clinigol gael eu diwallu er sicrhau'r budd gorau posibl, gan osgoi cyfaddawdu diangen o ran darpariaeth. Er bod hynny'n ffactor cadarnhaol o ran cynnig dewis i ddefnyddwyr gwasanaeth, gall effeithio'n negyddol ar amseroedd aros. Po fwyaf yw ystod y cyfarpar, y mwyaf cymhleth yw'r broses ragnodi a chomisiynu a'r hiraf oll, felly, yw'r amseroedd ar gyfer cyflenwi a chomisiynu. Mae hefyd yn golygu bod y cyfleoedd i adnewyddu ac ailddefnyddio cyfarpar yn fwy cyfyngedig.

Mae'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn darparu gwasanaeth cadeiriau olwyn sy'n diwallu "anghenion iechyd" yn bennaf, hy anghenion hanfodol sy'n ymwneud ag ystum a symudedd. Yn aml bydd angen ystyried anghenion ehangach defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y broses asesu, boed mewn perthynas â chyflogaeth, addysg neu angen cymdeithasol.

Mae gwasanaeth gofal a thrwsio o safon yn rhan annatod a hollbwysig o'r gwasanaeth cadeiriau olwyn, ac mae'n hanfodol i bob cleient. Bydd y gwasanaeth yn y de yn troi'n wasanaeth a ddarperir yn fewnol eleni.

Ni chaiff benthyciadau cadeiriau olwyn byrdymor eu hariannu drwy'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o gleientiaid, gofalwyr ac ymarferwyr yn dibynnu ar asiantaethau gwirfoddol i gael y gwasanaeth hwn. Mae angen adolygu'r ddarpariaeth benthyciadau byrdymor ymhellach.

### Argymhellion Cam Un Adolygiad Cymru Gyfan o Ystum a Symudedd

Gwnaeth adroddiad Cam Un yr argymhellion canlynol:

Mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth dylid datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol cadarn sy'n mesur y llwybr cyfan, er mwyn hybu'r agenda gwella perfformiad.

Er mwyn cefnogi gwaith a wnaed eisoes i wella prosesau rheoli rhestrau aros sy'n ymwneud ag ystum a symudedd, mae'n ofynnol cynnal adolygiad pellach yn unol â'r canllawiau Atgyfeiriad am Driniaeth.

Mae angen adolygu'r model gwasanaeth gan ystyried yr egwyddorion allweddol a awgrymwyd ac y cytunwyd arnynt.

Mae angen ymestyn yr egwyddor o Asesu Unedig yn llawn i'r gwasanaeth ystum a symudedd. Bydd angen datblygu protocolau asesu Therapyddion Cymunedol, fel bod modd i elfennau allweddol o asesiad yn y gweithle, y cartref a'r ysgol gael eu cwblhau cyn bod achos yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar. Mae angen datblygu cysylltiadau cyfathrebu cryf rhwng staff y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar a therapyddion cymunedol, gyda therapyddion cymunedol yn bresennol yn yr holl asesiadau cyntaf.

Dylid parhau i reoli gwaith cynllunio Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar safonol ac arbenigol drwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sef y corff sy'n olynu Comisiwn Iechyd Cymru.

Bydd arweinydd polisi yn cael ei nodi o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gwasanaethau Technegol a ddylai gynnwys Gwasanaethau Aelodau Artiffisial a Chyfarpar, cyfarpar cymunedol, cyfarpar cyfathrebu ac amgylcheddol, Teleofal a Theleiechyd.

Bydd rhaglen addysg yn cael ei datblygu i alluogi defnyddwyr, gofalwyr ac ymarferwyr i ddeall gwerth partneriaeth wirioneddol ar gyfer cytuno sut y diwellir anghenion defnyddwyr y gwasanaethau a ddarperir drwy Wasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar, Unedau Peirianneg Adsefydlu a gwasanaethau adsefydlu.

Dylid ymgymryd ag adolygiad penodol o'r broses o gomisiynu a darparu cadeiriau olwyn at ddibenion benthyciadau byrdymor.

### Y Camau Nesaf ar gyfer Cam Dau Adolygiad Cymru Gyfan o Ystum a Symudedd

Mae gwaith ar droed ar hyn o bryd i ddatblygu Cam Dau Adolygiad Cymru Gyfan o Ystum a Symudedd. Bydd yr adolygiad yn mynd a'r argymhellion o gam un yn eu blaen ac mi fydd ar ffurf dau linyn a fydd yn cydredeg â'i gilydd. Bydd llinyn cyntaf yr adolygiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

Adolygu prosesau rheoli rhestrau aros cyfredol. Nod hynny fyddai sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad a wneir yn y gwasanaeth cadeiriau olwyn yn y dyfodol yn cael ei gynllunio i sicrhau mwy o ostyngiad mewn amseroedd aros.

Adolygu prosesau rheoli rhestrau aros am gadeiriau olwyn, yn unol â'r canllawiau Atgyfeiriad am Driniaeth.

Adolygu model gwasanaeth sy'n ymwneud ag ystum a symudedd.

Datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol cadarn er mwyn hybu'r agenda gwella perfformiad.

Byddai'r ail linyn, a fyddai'n cydredeg â'r llinyn cyntaf, yn ymdrin â'r ddau argymhelliad ehangach canlynol:

Adolygu'r model mwyaf priodol ar gyfer y sefydliad arweiniol unigol arfaethedig a fyddai'n gyfrifol am reoli a chyflenwi'r gwasanaethau a ddarperir gan y Canolfannau Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar a'r Unedau Peirianneg Adsefydlu ar hyn o bryd, a ddylai gynnwys gwaith datblygu rhaglen addysg i alluogi defnyddwyr, gofalwyr ac ymarferwyr i ddeall gwerth partneriaeth wirioneddol ar gyfer cytuno sut y diwellir anghenion defnyddwyr y gwasanaethau.

Adolygu'r broses o gomisiynu a darparu cadeiriau olwyn at ddibenion benthyciadau byrdymor.

Mae Cam Dau yn cael ei roi ar waith gan Fwrdd Prosiect a gefnogir gan grŵp cyfeirio ehangach. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Bwrdd Prosiect ym mis Mawrth 2010, a bydd ganddo dri mis i gwblhau'r gwaith.

## 4 Crynodeb ac argymhellion

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynnydd a wnaed ar Adolygiad Cymru Gyfan o Ystum a Symudedd.